## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Hydref 2012 yn Siambr Cyngor Sir y Fflint, yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A Morris Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn [cyrhaeddodd 11am] | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M A Reece [cyrhaeddodd 11.15am] | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy brif Swyddog Tân); P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E A Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Cyn dechrau'r cyfarfod, aeth y Cadeirydd ati i longyfarch y PSTC Ruth Simmons ar gwblhau'r Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol a bod yn fyfyriwr gorau'r criw.

Estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad yr Awdurdod i'r Cynghorydd A Tansley yn dilyn profedigaeth deuluol. Hefyd, cafodd yr Aelodau wybod am farwolaeth y Diffoddwr Tân Chris Burns yn dilyn afiechyd hir ac anodd. Talodd y Prif Swyddog Tân deyrnged i Chris Burns a fu, yn ogystal â bod yn ddiffoddwyr tân uchel ei barch, yn aelod gwerthfawr o Undeb yr FBU ac yn ysgrifennydd lleol yr undeb am nifer o flynyddoedd. Cafwyd munud o dawelwch yn y cyfarfod fel arwydd o barch.

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

3 COFNODION

3.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2012 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 YMGYNGHORI AR YR AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

5.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys y ddogfen ymgynghori ar yr Amcanion Gwella drafft ar gyfer 2013-14.

5.2 Esboniodd y DBST fod Gweithgor y Cynllun Gwella, a oedd yn cynnwys aelodau'r Panel Gweithredol, wedi cyfarfod sawl gwaith dros yr haf, a bellach roedd yr amcanion gwella drafft yn cael eu hargymell i'r Awdurdod. Gwahoddwyd yr Aelodau i roi sylwadau ar y ddogfen ymgynghori ddrafft.

5.3 Cyfeiriodd y Cyng. A Jones at dudalen 30 o'r ddogfen ymgynghori, a theimlai y dylai'r targedau gael eu cynnwys yn yr adroddiad er mwyn i'r Awdurdod wybod pa dargedau a gyrhaeddwyd a pha ganlyniadau a sicrhawyd.

5.4 Holodd yr Aelodau am yr hyn y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud o ran digwyddiadau llifogydd, ac i ba raddau y dylai ATAau fod yn rhan o benderfyniadau cynllunio mewn perthynas â thai mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd a ph'un ai y dylid cael ystadegau a data ynghylch galwadau at ddigwyddiadau llifogydd. Atebodd y PST mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yn hytrach na'r awdurdod tân ac achub yw materion cynllunio i atal llifogydd. Sicrhawyd yr Aelodau fod y Gwasanaeth yn

cydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd.

5.5 Cyfeiriodd y Cyng. McGuill at dudalen 32 o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn dweud bod 98% o alwadau wedi eu hateb o fewn 20 eiliad, a gofyn beth oedd yn digwydd i'r 2% arall a ph'un ai y dylid cynnwys yr wybodaeth yn y ddogfen i'w chwblhau. Rhoddwyd sicrwydd hefyd yr aethpwyd allan at y 2% o alwadau nad atebwyd o fewn 20 eiliad.

5.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y ddogfen 'Ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru' at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus, yn amodol ar ychwanegu targedau.**

[Cyrhaeddodd y Cyng. Brian Dunn ar yr adeg hon.]

6 ALLDRO AMCANOL 2012-13

6.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am yr alldro amcanol amcangyfrifiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-2013. Yr arwyddion cyfredol oedd y byddai £640,122 o danwariant rhagamcanol. Esboniodd y Trysorydd fod rhan ohono wedi ei gynllunio, rhan ohono oherwydd canlyniadau materion eraill, ac mae amrywiadau o dan rhai penawdau yn y gyllideb fel y nodir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, tanwariant amcangyfrifiedig oedd hyn, a gallai newid rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol gan ddibynnu ar weithgarwch.

6.2 O ran y costau ynni, gofynnodd y Cyng. A Jones a oedd unrhyw adeiladau lle y gellid defnyddio ynni adnewyddol, er enghraifft paneli solar. Esboniodd y PSTC Claydon fod y defnydd o ynni yn cael ei fonitro'n ofalus, a chytunwyd i roi sesiwn hyfforddi/wybodaeth i'r Aelodau cyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod ynglŷn â rheoli cyfleusterau yn y Gwasanaeth.

6.3 Holodd y Cyng. A Jones am y gyllideb danysgrifiadau a oedd wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol: esboniodd y DBST fod hyn oherwydd cynnydd yng nghost tanysgrifiad Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân yn ystod y flwyddyn, sef rhywbeth nad oedd y swyddogion yn ymwybodol ohono wrth osod y gyllideb.

6.4 Hefyd, bu cynnydd yn yr alldro amcanol ar gyfer rheoli cyfleusterau, ac esboniwyd bod hyn oherwydd yr oedi mewn perthynas â phrosiectau yn y rhaglen gyfalaf, er enghraifft prosiect gorsaf dân/ambiwlans Wrecsam, ac roedd hyn yn golygu bod yn rhaid ymorol am y ffioedd o'r gyllideb refeniw yn hytrach nac o'r gyllideb gyfalaf.

6.5 Gofynnodd y Cyng. P Pemberton am y swydd wag ar gyfer PSTC a ph'un ai oedd hyn yn peri trafferth i'r sefydliad. Cadarnhaodd y PST fod hyn yn cael ei adolygu'n barhaus a'i fod yn trafod y mater gyda'r Cadeirydd.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig.**

[Cyrhaeddodd y Cyng. M Reece ar yr adeg hon.]

7 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION ARIANNOL

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad yn unol â'r gofyniad yng Nghod Ariannol CIPFA ar Gyllid Cyfalaf fod Dangosyddion Ariannol yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Felly hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, mae angen adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub am unrhyw newidiadau yn y benthyca tymor hir a newidiadau i bartïon i gontract.

7.2 Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w adolygu ar 24 Medi 2012. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

7.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r dangosyddion ariannol sydd wedi eu diwygio ac wedi eu nodi yn atodiad A i'r adroddiad;**

**(ii) nodi'r partïon i gontract fel y nodir yn atodiad B i'r adroddiad; a**

**(iii) nodi'r benthyciadau newydd gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, Cyngor Dosbarth Tendring, Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Bwrdeistref Llundain Ealing a Pensiynau Swydd Derby.**

8 DARPARIAETH Y FFLYD YN Y GWASANAETH

8.1 Cyflwynodd y PSTC Claydon yr adroddiad ynglŷn â ddarpariaeth y fflyd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

8.2 Mae adran y Fflyd wedi ei lleoli yng ngweithdai'r Gwasanaeth yng Nghyffordd Llandudno, ac mae ei gyllideb refeniw ar gyfer 2012/13 fymryn dros £880,000. Mae gwahanol bwysau ar y gyllideb, gan gynnwys yr amrywiadau ym mhrisiau tanwydd a'r cyfraddau cyfnewid sy'n effeithio ar gost darnau cerbydau. Mae rheolau a rheoliadau llym yn ymwneud â thrin a chynnal a chadw cyfarpar, ac felly mae'n hanfodol fod yr Awdurdod yn wreiddio'r rhaglen o gael cerbydau newydd yn rheolaeth gyffredinol y fflyd. Yn ogystal â sicrhau nad yw cerbydau'n cael eu defnyddio ond yn ystod eu hoes waith, mae'r rhaglen yn fodd weithredol ac effeithiol o gynorthwyo wrth gynllunio'r gyllideb gyfalaf yn y tymor canolig a hir.

8.3 Cytunwyd i wahodd yr Aelodau i ymweld ag Adran y Fflyd a'r gweithdy yng Nghyffordd Llandudno yn dilyn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod yng Nghonwy.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD YR AWDURDOD YN 2011-12

9.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2011-12. Mae gofyn i'r Awdurdod gyhoeddi'r wybodaeth erbyn 31ain Hydref yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

9.2 Roedd yr adroddiad yn darparu asesiad o'r modd yr oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, a'i gynnydd o'i gymharu â'r amcanion gwella a osododd iddo'i hun ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2011-12). Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o'i waith ar y cyd, a'i berfformiad o'i gymharu â dangosyddion perfformiad penodol, cenedlaethol a lleol, a mesurau o lwyddiant.

9.3 Aeth y DBST â'r Aelodau drwy'r ddogfen, a'u hatgoffa fod yr Awdurdod, yn ogystal â gweithio tuag at y ddau brif amcan a ddatganwyd, hefyd yn gweithio tuag at saith amcan gwella cyffredinol arall a thri amcan yn ymwneud ag adnoddau, ac mae manylion amdanynt i gyd yn yr adroddiad ar asesiad o berfformiad, ynghyd â mesurau o lwyddiant o'u cymharu â phob amcan.

9.4 Dywedodd y Cyng. P Shotton iddo fod yn nghyflwyniad y Ffenics yng ngorsaf dân yr Wyddgrug, a'i fod wedi ei ysbrydoli gan hyder y bobl ifanc a'u gwaith tîm. Roedd hefyd yn falch fod y cwrs wedi ei achredu a bod y fenter yn parhau i'r dyfodol.

9.5 Holodd y Cyng. H McGuill am y cynnydd yn nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd, ac esboniodd y Prif Swyddog Tân fod hyn oherwydd newid yn y polisi o ran y ffordd yr oedd y Gwasanaeth yn ymdrin ag afiechyd tymor hir.

9.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r asesiad drafft o Berfformiad yr Awdurdod yn 2011-12 i'w gyhoeddi cyn y dyddiad terfynol statudol, sef 31 Hydref.**

10 NEWIDIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG

10.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo rhagor o newidiadau i reolau sefydlog yr Awdurdod.

10.2 Roedd y rheolau sefydlog diwygiedig wedi eu cyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Mehefin 2012, ac yn ystod yr adolygiad wedi hynny a'u cwblhau'n derfynol, daeth yn amlwg fod rhai manylion wedi eu hepgor o Reol Sefydlog 12. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau yn nodi dau newid i Reol Sefydlog 12 2 (ch) a Rheol Sefydlog 3 (c), ond gofynnwyd i'r Aelodau anwybyddu'r newid i 2 (ch) gan nad oedd ei angen.

10.3 Felly, **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newid i Reol Sefydlog 12 3 (c), i ddarllen fel a ganlyn:**

**Bydd Rheol Sefydlog 17 (cofnodion) yn gymwys i'r Pwyllgor Safonau, ond fel arall ni fydd rheolau sefydlog canlynol yr Awdurdod yn gymwys i'r Pwyllgor: 3,4,5,6,7,8,20, 27 a 28.**

11 Y PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL

11.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad, a rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wneir dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC).

11.2 Roedd y PMC wedi cyfarfod ddwywaith, ac roedd llifoedd gwaith wedi eu sefydlu er mwyn ystyried gwaith ar y cyd mewn gwahanol feysydd yn y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Mynegodd y Prif Swyddog Tân eto nad oedd gan y PMC unrhyw bwerau penderfynu, ac y byddai unrhyw newidiadau a gynigir yn dod gerbron pob ATA i'w hystyried yn unigol.

11.3 Roedd y Cyng. P H Pemberton yn cydnabod bod angen cydweithio, ond yn gofyn i'r awdurdod sicrhau ei fod yn cadw ei hunaniaeth. Roedd y Cadeirydd yn cydnabod pryder y Cyng. Pemberton ac yn dweud ei bod yn bwysig fod cydweithio'n cael ei weld ar waith gymaint ag y bo modd gan gadw annibyniaeth yr Awdurdod ar yr un pryd.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

12 Y DIWEDDARAF AM Y BWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU MWY DIOGEL A CHOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

12.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc y diweddaraf i'r Aelodau am y Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel. Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2012, ac roedd ei gylch gorchwyl wedi ei gymeradwyo. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1af Tachwedd.

12.2 Hefyd, rhoddodd y Dirprwy Glerc yr wybodaeth ddiweddaraf yn gryno i'r Aelodau am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r Etholiadau ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Roedd briffiad cyfun ar ddiogelwch cymunedol wedi ei anfon i'r ymgeiswyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael neges gyson gyda sylw cynhwysfawr. Bydd y Panel Troseddu yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol a dau berson annibynnol, a nodwyd bod yr hysbyseb ar gyfer y personau annibynnol wedi ei chyhoeddi.

12.3 Bu un o swyddogion y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithio ar friffiad ynglŷn â gwaith y Gwasanaeth i'w ddarparu i'r ymgeisydd llwyddiannus.

12.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

13 COFNODION CYFARFODYDD

13.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 16eg Gorffennaf a 17eg Medi
- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24ain Medi

13.2 Gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Archwilio i benodi'r Cyng. J R Skelland yn Gadeirydd, a'r Cyng. W O Thomas yn Ddirprwy Gadeirydd y pwyllgor. **PENDERFYNWYD cadarnhau'r ddau benodiad.**

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**